ATODLEN 3

Safonau gweithredu

# RHAN 3

## DEHONGLI'R SAFONAU

**11** Rhaid dehongli'r safonau a bennir yn Rhan 1 o'r Atodlen hon fel a ganlyn.

**12** (1) Nid yw'n ofynnol i gorff gyfieithu i'r Gymraeg unrhyw destun nad yw wedi ei lunio ("testun A").

(2) Ni fydd corff yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol os nad yw'n cyfieithu testun A i'r Gymraeg ond gweler is-baragraff (3).

(3) Rhaid i gorff ddefnyddio'r fersiwn Gymraeg o destun A os yw person arall wedi llunio testun A yn Gymraeg yn unol—

(a) â'i Gynllun Iaith Gymraeg;

(b) â dyletswydd i gydymffurfio â safonau;

(c) â Rheolau Sefydlog y Cynulliad;

(ch) ag adran 35(1C) o Ddeddf 2006; neu

(d) â Chynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad.

(4) Yn y paragraff hwn—

(a) ystyr "Cynllun Iaith Gymraeg" yw cynllun iaith Gymraeg a lunnir yn unol â Rhan 2 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993([1]);

(b) ystyr "dyletswydd i gydymffurfio â safonau" yw dyletswydd i gydymffurfio â safon o dan adran 25 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011;

(c) ystyr "Deddf 2006" yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006([2]);

(ch) ystyr "Rheolau Sefydlog y Cynulliad" yw rheolau sefydlog a wnaed o dan adran 31 o Ddeddf 2006;

(d) ystyr "Cynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad" yw'r Cynllun a fabwysiadwyd ac a gyhoeddwyd o dan baragraff 8 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006.

**13** At ddibenion safonau 90 i 92 (mewnrwyd corff), mae cyfeiriadau at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn cynnwys, ymysg materion eraill (ac yn ogystal â materion penodol y cyfeirir atynt mewn unrhyw safon unigol), peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran—

(a) golwg y deunydd (er enghraifft o ran lliw, maint, ffont, a fformat unrhyw destun); neu

(b) pryd y caiff y deunydd ei gyhoeddi ar y fewnrwyd;

ond nid yw'n golygu bod yn rhaid i'r deunydd Cymraeg ymddangos ar yr un dudalen â'r deunydd Saesneg, nac ar dudalen a fydd yn debygol o agor cyn y fersiwn Saesneg gyfatebol o'r dudalen.

(**1**) 1993 p. 38.
(**2**) 2006 p. 32.

**14** At ddibenion safonau 107A (recriwtio) a 111 (arwyddion a hysbysiadau mewnol), mae cyfeiriadau at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn cynnwys, ymysg materion eraill (ac yn ogystal â materion penodol y cyfeirir atynt mewn unrhyw safon unigol), peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran—

(a) golwg y deunydd (er enghraifft o ran lliw neu ffont unrhyw destun);
(b) maint y deunydd;
(c) lleoliad ac amlygrwydd y deunydd mewn unrhyw fan cyhoeddus;
(ch) pryd a sut y caiff y deunydd ei gyhoeddi, ei ddarparu neu ei arddangos; neu
(d) fformat cyhoeddi'r deunydd.

**15** At ddibenion y safonau, nid yw gofyniad i gyhoeddi, darparu neu arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig yn Gymraeg yn golygu y dylid cyhoeddi, darparu neu arddangos deunydd yn Gymraeg yn unig, ac nid yw'n golygu ychwaith y dylid llunio'r deunydd yn Gymraeg yn gyntaf (oni nodir hynny yn benodol yn y safon).

**16** Nid yw safonau 90 i 92 (y fewnrwyd) yn gymwys i—

(a) dogfennau y darperir dolen iddynt ar y fewnrwyd, deunydd hysbysebu ar y fewnrwyd, na chlipiau fideo a sain ar y fewnrwyd (gweler safon 82 am ddarpariaeth benodol mewn perthynas â dogfennau); nac i
(b) gwybodaeth a gyflwynir gan bersonau ar dudalen ryngweithiol a gyhoeddir ar fewnrwyd corff (er enghraifft, ar adran ar gyfer sylwadau neu ar fforwm trafod).

**17** At ddibenion safonau 106 a 106A yn unig—

(a) mae "swydd" yn cynnwys penodiad cyhoeddus;
(b) ystyr "penodiad cyhoeddus" yw unrhyw benodiad i gorff cyhoeddus neu swydd gyhoeddus.

**18** At ddibenion safonau 107 i 109 yn unig mae "swydd" yn cynnwys swydd wirfoddol.

**19** Yn safon 110, ystyr y "cyfnod 5 mlynedd" yw—

(a) 5 mlynedd sy'n dechrau â'r dyddiad gosod, a
(b) pob cyfnod 5 mlynedd dilynol.

**20** Ym mharagraff 19, ystyr y "dyddiad gosod" yw'r diwrnod y mae'n ofynnol i berson gydymffurfio â safon 110 ohono neu gydymffurfio â hi mewn modd penodol.

**21** Nid yw safon 114 yn gymwys pan wneir y neges y byddwch yn ei chyhoeddi dros system annerch gyhoeddus yn ystod argyfwng neu ymarfer argyfwng.